

# CABINET

**DYDD LLUN, 18 MEDI 2023**

**PRESENNOL** Cynghorydd D. Price (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

C.A. Davies

L.D. Evans

H.A.L. Evans

G. Davies

P.M. Hughes

A. Lenny

E.G. Thomas

J. Tremlett

A. Vaughan Owen

**Cynghorwyr yn bresennol fel sylwedydd (Yn rhithwir):**

Y Cynghorydd Deryk Cundy.

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

W. Walters, Prif Weithredwr

C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau

G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant

D.W. John, Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol

J. Jones, Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidoll

L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata

L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet

E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol yn rhithwir**

R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd

J.G. Jones, Rheolwr Cynnal a Chadw Eiddo

M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 10.40 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

Y Cynghorydd/ Swyddog	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Cyng. A. Davies	9 - Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr;	Yn rhedeg Airbnb mewn ail gartref fel rhan o'i busnes

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

		fferm;
Cyng. H. Evans	9- Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr;	Mae gan aelod o'r teulu ail gartref;
Cyng. L.D. Evans	9 - Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr;	Mae gan aelod o'r teulu ail gartref;
Cyng. P. Hughes	9 - Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr;	Mae gan aelod o'r teulu ail gartref;
W.S. Walters	14 - Effaith Covid-19 ar Gontractwyr – Gwaith Mawr;	Mae ei gŵr yn gweithio i gontractwr;

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALWYD AR Y 17EG GORFFENNAF 2023.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir.

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDD DARBODAETH 2022-2023.**

Fel rhan o ofynion Côt Ymarfer diwygiedig CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol y Cyngor ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth ar gyfer 2022-23.

Mabwysiadodd y Cyngor Bolisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd ar gyfer 2022-23 ar 2 Mawrth 2022. Rhestrododd yr adroddiad blynyddol y gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR** bod yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth 2022-23 yn cael ei fabwysiadu.

**7. RHAGOLYGNON Y GYLLIDEB REFENIW.**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad ar Ragolygon Cyllideb Refeniw'r Cyngor yn dilyn y cyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth 2023 lle cytunwyd ar ei Gynllun Ariannol

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Tymor Canolig ar sail yr amcangyfrifon a'r ymrwymiadau a oedd yn hysbys ar y pryd a'i lunio yng nghyd-destun setliad ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24, gan gynnwys setliad dangosol ar gyfer blwyddyn 2 o'r cynllun ac amcangyfrifon ar gyfer mewnbynnau allweddol eraill. Ar adeg y gosod y gyllideb nodwyd y risg o chwyddiant, ac yn benodol ei effaith ar setliadau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, yn ogystal â'r cynnydd mewn costau gofal a gomisiynwyd, sy'n gysylltiedig â chynnydd yn y cyflog byw sylfaenol. Fodd bynnag, roedd newidiadau ychwanegol i'r amgylchedd allanol a fyddai'n cael effaith sylweddol ar y gyllideb wrth symud ymlaen yn cynnwys y canlynol:

- Mae cyfradd chwyddiant bellach yn amlwg yn gostwng, er bod rhagolygon yn dal i fod yn ansicr iawn;
- Sefyllfa sydd heb ei datrys ynghylch cynnig cyflog NJC Ebrill 2023 (manylion isod), gyda chynnig y Cyflogwyr eisoes yn cael ei amcangyfrif £3m yn uwch na'r ffigurau cyllidebol cyfredol;
- Risg o anghydfod pellach ynghylch cynnig Athrawon Medi 2023 (wedi'i ddiwygio i 5% ar adeg ysgrifennu – manylion isod);
- Prisiau ynni llai sydd nid yn unig yn lleihau ein costau corfforaethol, ond maent hefyd wedi lleihau cost mecanwaith cap prisiau Llywodraeth y DU, gan wella cyllid cyhoeddus.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

- 7.1 bod y rhagolwg cyllidebol cychwynnol yn cael ei dderbyn;**
- 7.2 bod y dull arfaethedig o glustnodi'r arbedion angenrheidiol yn cael ei gymeradwyo;**
- 7.3 bod y dull arfaethedig o ymgynghori ynghylch y gyllideb yn cael ei nodi.**

## **8. CAIS I'R GRONFA DATBLYGU.**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa ddiweddaraf y Gronfa Ddatblygu ac yn gofyn am gymeradwyo cais diweddar i roi swm o £175,000 i ariannu lleiniau ychwanegol â thrydan ym Mharc Gwledig Pen-bre a fyddai'n creu rhagor o incwm. Cynigwyd bod yr ad-daliad ar gyfer y cynllun uchod yn para dros bedair blynedd.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

- 8.1 cymeradwyo rhoi swm o £175,000 ar gyfer ariannu lleiniau ychwanegol â thrydan ym Mharc Gwledig Pen-bre, gan greu mwy o incwm;**
- 8.2 bod yr ad-daliad am y cynllun uchod yn para dros gyfnod o bedair blynedd;**
- 8.3 bod y taliadau'n dechrau yn 2024/25.**

## **9. AIL GARTREFI A LLETY GWYLIAU TYMOR BYR.**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

[Sylwer: Roedd y Cyngorwyr A. Davies, H. Evans, L.D. Evans a P. Hughes wedi datgan buddiant personol yn yr eitem hon yn gynharach ac felly gadawsant y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod a'r bleidlais ddilynol.]

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad yn nodi ffordd ymlaen posibl mewn perthynas ag ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr a datblygu dull polisi cynllunio a fydd yn tynnu sylw at yr ystyriaethau sylfaenol a'r dulliau posibl i reoli'r newid defnydd digyfngiad rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd o eiddo. Wrth lunio'r ffordd ymlaen, mae'r adroddiad yn nodi cyfres o gamau fel rhan o ddull fesul cam o ystyried a gweithredu dull polisi newydd ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn Sir Gaerfyrddin.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**9.1 nodi cynnwys yr adroddiad hwn a chefnogi'r camau canlynol;**

**9.2 mabwysiadu'r dull fesul cam a nodwyd wrth ddatblygu ymateb a arweinir gan bolisi;**

**9.3 cymeradwyo datblygiad pellach y sylfaen dystiolaeth fel yr amlinellir yn yr adroddiad.**

## **10. MATERION YSTÂD WLEDIG Y CYNGOR SIR.**

Ymhellach i gofnod 14 o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2023, rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ar ddau fater cyfredol yn ymwneud â phortffolio Ystâd Wledig y Cyngor sef plannu coed a chreu coetiroedd ar dir y Cyngor a sefydlu Prosiect Datblygu Systemau Bwyd yn Fferm Bremenda Isaf, Llanarthne. Byddai'r cyntaf yn helpu i gyflawni nodau'r Cyngor ynghylch atafaelu carbon mewn perthynas â'i ymrwymiad Carbon Sero Net a'i amcanion Argyfwng Natur, a byddai'r olaf yn cyflawni nodau'r Cyngor ynghylch cynhyrchu bwyd lleol, cefnogi mentrau gwledig a galluogi arallgyfeirio ar ei Ystâd Fferm at ddibenion sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**10.1 bwrw ymlaen â phlannu coed a chreu coetiroedd ar dir y Cyngor;**

**10.2 bwrw ymlaen â'r Prosiect Datblygu Systemau Bwyd yn Fferm Bremenda Isaf, Llanarthne.**

## **11. NODI BOD GRŴP PLAID CYMRU WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD MEINIR JAMES I GYMRYD LLE'R CYNGHORYDD HAZEL EVANS AR Y GRŴP LLYWODRAETHU LLESIANT DELTA.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi bod Grŵp Plaid Cymru wedi enwebu'r Cyngorydd Meinir James yn lle'r Cyngorydd Hazel Evans ar y Grŵp Llywodraethu Llesiant Delta**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

**12. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD  
AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYN  
YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

**13. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoeddadael y cyfarfod tra oedd yr eitem canlynol yn cael ei ystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**14. EFFAITH COVID-19 AR GONTRACTWYR - GWAITH MAWR.**

[Sylwer: Roedd y Prif Weithredwr, Wendy S. Walters, wedi datgan buddiant personol yn yr eitem a gadawodd y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn trafod yr eitem ac yn pleidleisio yn ei chylch.]

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 13 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth yn cael effaith andwyol ar gyllid cyhoeddus drwy danseilio sefyllfa'r Cyngor o ran trafod telerau yn y trafodiad hwn a thrafodiadau tebyg eraill.**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad yn gofyn am benderfyniad i ddiwygio darpariaethau cytundebol yn unol â Chanllawiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig ag adeiladu. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y goblygiadau ariannol, y risgiau a'r goblygiadau cyfreithiol i'r amrywiol opsiynau oedd ar gael.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu Opsiwn 2 fel yr amlinellir yn yr adroddiad.**

---

**CHAIR**

---

**DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf